Croeso i'ch Partneriaeth Newydd

Lansiwyd Partneriaeth Natur Sir Benfro mewn achlysur ar 9fed Mai a fynychwyd gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae'r Bartneriaeth newydd yn mabwysiadu swyddogaeth ac asedau Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro a bydd yn dal i ddefnyddio rhwydweithiau presennol, ar yr un pryd â ffurfio cysylltiadau newydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i natur.

Mae'r Bartneriaeth yn bodoli i hyrwyddo cydweithredu a rhannu arferion gorau ar draws y sector cadwraeth a meithrin gwell dealltwriaeth o faterion cadwraeth a gwerth natur yn ein cymdeithas ymhlith y cyhoedd.

Mae polisi a chanllawiau diweddar cysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy'n cynrychioli symudiad oddi wrth Gynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth penodol a thuag at agwedd fwy cyfannol, rhwng partneriaid, at 'adfer natur'. Mae adnewyddu ac ailfrandio Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro (PBP) fel Partneriaeth Natur Sir Benfro (PNP) yn rhan o'r broses ehangach hon ac yn rhoi'r Bartneriaeth o fewn y fframwaith newydd heb golli'r rhwydweithiau a chysylltiadau gwaith agos a sefydlwyd gan PBP yn ystod y 18 mlynedd aeth heibio. Mae hwn yn gyfle i adolygu aelodaeth y bartneriaeth leol sy'n cyflawni cadwraeth natur er mwyn sicrhau cyfranogiad gymaint o randdeiliaid ag y bo modd.

Y Cynghorydd Huw George, Hyrwyddwr Bioamrywiaeth Cyngor Sir Penfro, yn agor cyfarfod agoriadol y Bartneriaeth.

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP

PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyfrol 14 Rhifyn 2
Haf 2017

Yn y rhifyn hwn

Croeso i'ch Partneriaeth Newydd
Tudalennau 1—2

Caru Gwenyn yn Sir Benfro
Tudalennau 2—3

Prosiect y Cap Cwyr Duol
Tudalennau 3—4

Wedi Gweld unrhyw Wiberod yn Sir Benfro'r Gwanwyn Hwn?
Tudalennau 4—5

Cyllid yn Elwa Planhigion ac Anifeiliaid Dyfrol Gwarchodaeth
Tudalennau 5—6

Digwyddiadau
Tudalennau 6—7

Manylion Cysylltu
Tudalen 8

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Mae Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo'r bartneriaeth leol ers ei dechreuad – gan ariannu'r costau cynnal craidd yn rhannol a rhoi gwybodaeth arbenigol i lywio gwaith y Bartneriaeth a chyflawni gwaith penodol. Gyda'i gilydd, mae'r Partneriaid wedi cynhyrchu cynlluniau i arwain ymdrech gadwraeth i fan lle mae mwyaf ei hangen ac wedi gweithio'n uniongyrchol yn y maes gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau i rywogaethau mor amrywiol â mursen y de, y pathew a ffyngau cap cwyr sy'n brin.
Ar adeg ysgrifennu, mae rhestr y Partneriaid yn cynnwys:
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
Buglife
Canolfan Darwin
Undeb Amaethwyr Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyngor Sir Penfro
PLANED
Canolfan Wybodaeth am Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
Mae Llywodraeth Cymru'n ei chefnogi hefyd ac mae ganddi rwydwaith o ryw 200 unigolyn gyda sgiliau a phrofiad perthnasol sy'n cyfrannu amser a gwybodaeth arbenigol at hyrwyddo nodau cadwraeth yn Sir Benfro. Mae disgwyl i fwy o Bartneriaid ymuno yn yr wythnosau a ddaw.

Os oeddech y Bartneriaeth Bioamrywiaeth yn cyfathrebu'n rheolaidd â chi, bydd hyn yn parhau dan y Bartneriaeth Natur (os na ddywedwch fel arall wrthym). Os nad ydych eisoes yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac yr hoffech, cofiwch gysylltu.

Edrychaf ymlaen at barhaus i gydweithio dros natur yn Sir Benfro!

Ant Rogers
Partneriaeth Natur Sir Benfro

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP
PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Caru Gwenyn yn Sir Benfro

Mae Cynllun Caru Gwenyn yn arweiniad cymharol newydd gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru fel rhan o'i Chynllun Gweithredu ar Bryfed Peillio. Mae'r cynllun yn agored i unrhyw grŵp, sefydliad, busnes neu gymuned ac mae'n annog ymrwymiad hirdymor i gefnogi ein trychfilod peillio. Mae â phopeth i wneud â phobl yn gweithredu i helpu holl bryfed peillio, nid yn unig gwenyn.

Mae pryfed peillio'n hanfodol i'r amgylchedd ac i ni. Amcangyfrifwyd bod gwerth economaidd gwenyn fel pryfed sy'n peillio cnydau masnachol yn y DU dros £200 miliwn y flwyddyn (Cymdeithas Gwenynwyr Prydain), ond mae gwenyn yn dirywio ledled y wlad ac angen pob cymorth.

Cacynen ar y Bengaled
Llun: Trevor Theobald

Yn ddiweddar daeth Cyngor Tref Trefdraeth yn Gyngor Tref cyntaf Cymru i gael statws 'Caru Gwenyn' i gydnabod ei ymroddiad i gynorthwyo atal y dirywiad cenedlaethol ym mhoblogaethau pryfed peillio.

Bydd Cyngor y Dref yn rheoli darn o dir uwchlaw Mynwent Brynhyfryd fel dôl blodau gwyllt i ddarparu bwyd i bryfed peillio a bydd yn gosod 'gwestai pryfed' a wnaed gan ddisgyblion Ysgol Bro Ingli i greu mannau i bryfed peillio fyw.

Bydd Cyngor y Dref yn ceisio ymestyn y cynllun yn y blynyddoedd a ddaw a byddai'n caru clywed oddi wrth bawb sydd â syniadau i adeiladu ar eu llwyddiant a chynorthwyo cadw Trefdraeth yn suo!

Yn ddiweddar daeth Ysgol y Glannau'n ysgol gyntaf Sir Benfro i gael statws Caru Gwenyn.

Mae'r ysgol wedi addo darparu blodau ystyriol o bryfed peillio drwy gydol y flwyddyn, creu mannau i drychfilod peillio fyw, osgoi cemigion niweidiol a chynnwys y gymuned wrth dynnu sylw at bwysigrwydd pryfed peillio.

Mae'r Eco-ryfelwyr yn Ysgol y Glannau'n falch o fod ymhlith y rhai ar flaen y gad i wneud Cymru'n genedl gyntaf y byd sy'n Ystyriol o Bryfed Peillio! Meddai Mr Evans, Pennaeth yr ysgol, "Mae'r disgyblion yn gweithio'n galed nid yn unig i wella tiroedd ein hysgol ar gyfer gwenyn, ond hefyd i dynnu sylw ehangach at eu pwysigrwydd; mae'n fwy na mater amgylcheddol, mae'n helpu iddynt ddeall cyfrifoldeb byd-eang. Mae gwenyn yn hanfodol i'n cadwyn fwyd. Ni fyddai traean o'r bwyd a fwytwn ar gael heblaw am wenyn."

Yr Eco-ryfelwyr yn Ysgol y Glannau gyda'u Tystysgrif Caru Gwenyn

I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch: http://www.biodiversitywales.org.uk/Wales-Action-Plan-for-Pollinators neu cysylltwch â Hyrwyddwr Caru Gwenyn Sir Benfro.

Ant Rogers
Hyrwyddwr Caru Gwenyn Sir Benfro

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk

Rhwydwaith Cofnodi Ffyngau Sir Benfro - Prosiect y Cap Cwyr Duol

Rhoddodd erthyglau yn nhaflenni newyddion blaenorol PBP gefndir, a chynnydd gyda, ein prosiect lle'r aethom ati i gael y deunyddiau a medrusrwydd i dynnu DNA ac ynysu a mwyhau rhannau o god bar DNA samplau o ffwng.

Galluogwyd y prosiect trwy gymorth ariannol Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro a chymorth technegol Dr Gareth Griffith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r canlyniad; bydd adroddiad manylach yn ymddangos yn rhifyn Gorffennaf taflen newyddion PFRN a fydd ar gael ar y wefan www.pembsfungi.org.uk

Hygrocybe conicoides
Llun: David Harries

Cafwyd casgliadau o gap cwyr duol o fannau ledled y Sir yn 2015 a 2016. Tynnwyd a mwyhawyd samplau cod bar DNA ar gyfer pob casgliad. Dangosodd dadansoddiad o'r codau bar hyn fod y casgliadau'n rhannu'n 4 gwahanol grŵp - un ohonynt yn cyfateb i'r rhywogaeth twyni tywod *Hygrocybe conicoides* (*H. conica* amr. *conicoides*). Mae clystyrau eraill yn aros yn ddienw nes bydd y tacsonomyddion wedi cloddio'n ddyfnach i'r cymhlygyn *H. conica*. Pan fydd hyn yn digwydd byddwn yn gallu edrych eto ar y dilyniannau DNA a deunydd gwarantu a rhoi enwau

ar bob casgliad yn ôl-weithredol. Dengys y map ddosbarthiad casgliadau dilyniannol a gafodd god lliw ar sail y grŵp lle'r oeddent yn clystyru.

Canlyniad sylweddol y prosiect yw ein bod wedi sefydlu a phrofi ein cyfleusterau a threfnau ar gyfer tynnu DNA a chynhyrchu deunydd cod bar ffyngaidd ar gyfer dilyniannu. Mae hyn yn gadael i ni ddatblygu prosiectau newydd i wella ein gwybodaeth am rywogaethau ffyngaidd yn y Sir ac ymhellach draw, yn enwedig mewn achosion lle mae astudiaethau moleciwlaidd wedi newid ein dealltwriaeth o gymhlygyn rhywogaeth yn sylweddol.

Casgliadau *H. conica* – mae dotiau lliw'n cynrychioli gwahanol glystyrau ar sail dilyniannau DNA. Mae'r dotiau glas yn cyfateb i gap cwyr y twyni - *Hygrocybe conicoides*.

David Harries
Rhwydwaith Cofnodi
Ffyngau Sir Benfro

Wedi Gweld unrhyw Wiberod yn Sir Benfro'r Gwanwyn Hwn?

Mae prosiect pwysig yn anelu at gael hyd i ac astudio safleoedd gaeafgysgu gwiberod wedi bod ar y gweill y gwanwyn hwn ledled Sir Benfro a, diolch i apeliadau cynharach am rai a welwyd yn ogystal â data'r ganolfan gofnodi leol, mae Sam Langdon (ecolegydd lleol) a Mark Barber (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid) wedi gallu lleoli nifer o safleoedd newydd.

Fe all gwiberod fod yn olygfa gyffredin mewn rhai rhannau o'r Sir, ond ychydig iawn sy'n hysbys ar hyn o bryd ynghylch y mannau lle byddant yn dewis gaeafu. Mae gwiberod yn tueddu i aeafu gyda'i gilydd a phoblogaethau'n gallu bod yn fach ac, felly, os caiff y nodweddion hyn eu dinistrio'n anfwriadol yn ystod gwaith rheoli cynefinoedd yn y gaeaf neu ddod i'r amlwg oherwydd clirio llystyfiant, fe allai gael effaith leol fawr iawn ar rywogaeth sy'n dirywio ledled y wlad yn ôl y sôn.

Nod y prosiect hwn yw cael hyd i gymaint o'r nodweddion gaeafgysgu hyn ag y bo modd o gofnodion ac ymweliadau safle, astudio nodweddion gaeafleoedd ac yna weithio gyda rheolwyr tir i sicrhau eu dyfodol, yn ogystal â hyfforddi gwirfoddolwyr cadwraeth a rheolwyr tir i adnabod nodweddion o'r fath ar eu safleoedd.

Fodd bynnag, ar waethaf cael hyd i rhai gaeafleoedd newydd gwirioneddol dda, mae'n anodd ryfeddol eu lleoli ac mae'n dibynnu'n llwyr i ddechrau ar sylwi ar wiberod wrth iddynt ddod ohonynt i dorheulo yn gynnar yn y gwanwyn (rhwng Chwefror a chanol Ebrill).

Gwiber Ifanc yng Nghastellmartin
Llun: Sam Langdon

Os ydych wedi gweld unrhyw wiberod yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ac yn gallu cofio'r lleoliad (hyd yn oed yn fras), cofiwch gysylltu â Sam a Mark oherwydd y gallai unrhyw wybodaeth helpu lleoli rhagor o safleoedd pwysig neu ychwanegu at fannau lle mae'n hysbys bod llawer o wiberod. Bydd holl wybodaeth yn cael ei hychwanegu at Atlas Ar-lein Amffibiaid Cymru ARC (http://arc.cofnod.org.uk/) a'i defnyddio'n uniongyrchol i helpu gyda chadwraeth gwiberod yng Ngorllewin Cymru. Byddai eich cymorth yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Anfonwch fanylion unrhyw rai a welwyd (dyddiad, lleoliad, unrhyw fanylion am y creaduriaid fel rhyw neu oed ac unrhyw ffotograffau) at:
Dr Sam Langdon – dr.s.langdon@gmail.com

Mark Barber - Mark.Barber@arc-trust.org

Sam Langdon
Ecolegydd

Biodiversity Solutions

Cyllid yn Elwa Planhigion ac Anifeiliaid Dyfrol Gwarchodaeth

Mae gwarchodfeydd natur Comin Dowrog, Corsydd Llangloffan a Phwll Melin Uchaf Penfro wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn fymryn dros £6000 o arian i wella cynefinoedd dŵr agored. Daeth yr arian hwn o'r Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw, Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Gwnaed y gwaith ym mis Chwefror gan olygu defnyddio peiriannau contractwyr i ddadsiltio darnau o ddŵr agored, clirio sianelau a chreu gwalau newydd. Roedd rhan o'r gwaith ar Gomin Dowrog yn golygu tynnu llaid a phlanhigion o ran o gafn hanesyddol i wella llif y dŵr drwy'r safle ar yr un pryd â gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau di-asgwrn-cefn ac amffibiaidd dŵr croyw. Yn y blynyddoedd a ddaw, bydd darnau ychwanegol yn cael eu clirio gyda'r nod o ailagor y ddyfrffordd yn gyfan gwbl.

Dadsiltio'r Cafn yng Nghomin Dowrog
Llun: Nathan Walton

Yng Nghorsydd Llangloffan crëwyd dwy wâl newydd i hybu sefydlu rhywogaethau planhigion dyfrol prin fel pelenllys gronynnog a chrafanc y dŵr deiran. Ehangwyd y prif bwll gyda'r guddfan gwylio adar hefyd, gan wthio llystyfiant yn ôl a chreu darnau o ddŵr agored ar gyfer adar hirgoes ac adar eraill. Roedd gwaith Mhwll Melin Uchaf Penfro'n golygu

Ymestyn y Prif Bwll yng Nghorsydd Llan-gloffan
Llun: Nathan Walton

cloddio planhigion a glannau wedi siltio rhag effeithio ar y prif bwll ar yr un pryd ag atal ymlediad rhywogaethau ymosodol fel Jac y neidiwr.

Meddai Nathan Walton, Swyddog Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Benfro, "Rwy'n ddiolchgar iawn am gymorth ariannol yr Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw, Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro a Chyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi galluogi gwneud gwaith allweddol ar gynefinoedd yn fy ngwarchodfeydd y gaeaf hwn. Er bod ffynonellau arian mawr yn fwyfwy anodd eu cael, mae potiau llai o arian, ar y cyd â chyllid arall, yn dal i alluogi i ni gyflawni prosiectau gyda chanlyniadau gwirioneddol gadarnhaol i fywyd gwyllt."

Nathan Walton
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Mehefin—Awst

Date	Title	Information	Contact
Mehefin 1	Safari Trychfilod, Cilgerran	Dewch ar daith gerdded ddiddorol o gwmpas ein gwarchodfa i ddarganfod byd dirgel o chwilod a phryfed ar ein Safai Trychfilod. Mae'r teithiau cerdded yn dechrau am 11am a 2pm, a'r gost yw dim ond £3 y plentyn. Addas ar gyfer oedran 4+. Gwisgwch yn addas ar gyfer y tywydd os gwelwch yn dda, a gwisgwch esgidiau cadarn. Darperir offer gweld trychfilod.	01239 621600
Mehefin 4	Tyddewi: Golwg Parcmon o'r Parc Cenedlaethol	Mae ein parcmon yn eich gwahodd i ddarganfod 'ei batshyn ef'. Beth sy'n gwneud y ddinas leiaf mor arbennig iddo ef; pam ei bod hi'n anarferol cael dinas mewn Parc Cenedlaethol? Dysgwch yr atebion i gyd ar hyd y daith gerdded hamddenol awr o hyd hon o gwmpas dinas leiaf y DU. Argymhellir gwisgo esgidiau cadarn a dillad addas.	01437 720392
Mehefin 6	Taith Gerdded Blodau Gwyllt, Broad Haven South	Archwiliwch blanhigion Sir Benfro yn y Gwanwyn a dechrau'r Haf. Ymunwch â'n harweinydd Parc cenedlaethol, Vicky, a fydd yn adnabod rhywogaethau ac yn rhannu straeon am eu hanes a'u defnydd amrywiol; meddyginiaethol, coginio ac o gwmpas y cartref. Addas i bob aelod o'r teulu. Tir anwastad dan draed mewn mannau, felly argymhellir gwisgo esgidiau cadarn.	01437 720392
Mehefin 17 a 18	Cwrs Hyfforddi Arolwg Morfilod	Dysgwch am adnabod, dosbarthu, dulliau arolygu a chadwraeth rhywogaethau morfilod a dolffiniaid ar y cwrs deuddydd o hyd hwn yng Ngheredigion, gan gynnwys arolygon o'r tir ac ar gwch. Mae'r penwythnos yn darparu cyfle diguro i weld mamaliaid morol yn eu cynefin gwyllt ac i gyfrannu at gadwraeth morfilod ym Mhrydain. http://www.seawatchfoundation.org.uk/cetacean-survey-training-courses/	katrin.lohrengel@seawatchfoundation.org.uk

Digwyddiadau Bioamrywiaeth

Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
Mehefin 18, Gorffennaf 17, 21 a 28	Mynd yn Wyllt yn y Wern. Castell Henllys	Ymunwch â ni yn ein gweithdai denu i fyd natur, gan weithio gyda'n hamgylchedd a chael profiad hollol wahanol o Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Ffoniwch i gael manylion yn ystod wythnos y digwyddiad, i ddarganfod beth fydd y ddarpariaeth, neu edrychwch ar ein tudalen Facebook. £3.00 ynghyd â phris mynediad.	01239 891319
Gorffennaf 1	Dal Crancod ym Mhorthclais	Dewch i gwrdd â'r pysgod cregyn crafangus hyn mewn gweithgaredd llawn hwyl i'r teulu cyfan. Rhowch abwyd ar eich lein a'i anfon i lawr o dan y dŵr, ac yna arhoswch i'r cranc gnoi. Dysgwch bopeth am y creaduriaid diddorol hyn a sut y maen nhw wedi addasu ar gyfer bywyd yn y môr. Darperir yr holl offer. Rhaid i oedolyn fod gyda phob plentyn. ARCHEBU'N HANFODOL	01437 720392
Gorffennaf 4	Taith Gerdded Blodau Gwyllt, Caeriw	Archwiliwch blanhigion Sir Benfro yn y Gwanwyn a dechrau'r Haf. Ymunwch â'n harweinydd Parc cenedlaethol, Vicky, a fydd yn adnabod rhywogaethau ac yn rhannu straeon am eu hanes a'u defnydd amrywiol; meddyginiaethol, coginio ac o gwmpas y cartref. Addas i bob aelod o'r teulu. Tir anwastad dan draed mewn mannau, felly argymhellir gwisgo esgidiau cadarn.	01437 720392
Gorffennaf 16	Taith Bws Mini Castellmartin	Ymunwch â Grŵp Lleol De Sir Benfro ar daith bws mini i Gastellmartin – mwynhewch yr ardal hon sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd heb orfod cerdded gormod. Byddwn ni'n gweld cynefinoedd a bywyd gwyllt diddorol. Cwrdd ym maes parcio Comin Penfro am 9:30. Mae niferoedd yn gyfyngedig, felly cofiwch archebu lle os gwelwch yn dda. Dewch â chinio brechdanau.	Christine Jones 01646 673912
Awst 3	Saffari'r Pyllau, Gerddi Colby	Closiwch at y bywyd gwyllt diddorol a geir yn nentydd a phyllau Colby. Gweithgareddau ymarferol a diwrnod llawn o hwyl i'r teulu. Codir prisiau mynediad arferol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ynghyd â thâl am y gweithgaredd.	
Awst 3	Ystlumod Ysblennydd ym Mhalas yr Esgob	Mae'r digwyddiad bythol boblogaidd hwn yn eich gwahodd i fynd am dro yn y gwyll o gwmpas Palas yr Esgob, Tyddewi. Bydd Amanda, y Ceidwad, yn mynd â chi ar daith drwy amser wrth i chi ddod â'r adeilad a'r bobl oedd yn byw yno'n fyw yn ystod y daith dywys arbennig iawn yma. Dyma weithgaredd hwyliog i bob aelod o'r teulu. Darperir canfyddwyr ystlumod.	01437 720392
Awst 7	Taith Gerdded Bryniau'r Preselau	Dyma gyfle i gerdded ar hyd holl fryniau'r Preselau, gan ymweld â phob un o'r safleoedd hanesyddol sydd i'w canfod yma ac acw ar hyd yn gefnen. Argymhellir eich bod yn gwisgo dillad addas ac esgidiau cadarn. Noder bod y teithiau'n ddibynnol ar dywydd braf a gweleded clir.	01437 720392

Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

amphibian and reptile conservation
gwarchod amffibiaid ac ymlusgiaid

buglife Cymru

Darwin centre

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

PLANED

WWBIC
WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH GORLLEWIN CYMRU

YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**